# Datblygu polisi rheoli ymddygiad

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

Mae'r canllaw yma'n darparu fframwaith y gall cyflogwyr / cyrff llywodraethu ac arweinwyr ysgol ei ddefnyddio i ddatblygu eu polisi rheoli ymddygiad. Mae hefyd yn cynnwys rhestr wirio y gall athrawon ac arweinwyr ysgol ei defnyddio i wirio a yw polisi eu hysgol ar gyfer rheoli ymddygiad yn ymdrin â phob un o'r prif faterion yn briodol.

### Yr egwyddorion

Dyma egwyddorion y polisi ymddygiad:

1. Esbonio pwrpas y polisi a sut mae'n ymwneud ag addysgu a dysgu ac amgylchedd ehangach yr ysgol.

   - Dyma esiamplau o'r pethau a allai gael eu cynnwys o dan bennawd pwrpas y polisi a'i berthynas ag addysgu a dysgu, ac amgylchedd ehangach yr ysgol:

   a. galluogi addysgu a dysgu effeithiol;

   b. sicrhau ymddygiad da ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol;

   c. hybu datblygiad ysbrydol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion;

   d. creu amgylchedd dysgu gofalgar;

   e. cyfrannu at gymuned sy'n gymdeithasol gydlynol.

2. Dylid nodi'r hyn y mae'r polisi ymddygiad yn ceisio ei gyflawni.

   - Dyma esiamplau o'r hyn y dylai'r polisi geisio ei gyflawni:

   a. creu a chynnal amgylchedd sy'n galluogi i athrawon addysgu'n effeithiol ac i ddisgyblion gyflawni a llwyddo;

   b. hybu ymddygiad da;

   c. hybu hunan-barch, hunan-ddisgyblaeth, gwir barch at awdurdod a chysylltiadau cadarnhaol ar sail parch cyfartal;

   d. sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg;

   e. annog ymateb i ymddygiad cadarnhaol a negyddol mewn ffordd gyson;

   f. hyrwyddo ymyrraeth gynnar;

   g. darparu amgylchedd diogel heb unrhyw darfu ar wersi, trais, bwlio nac unrhyw fath o aflonyddu;

   h. annog perthynas gadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd, gan eu cynnwys yn y gwaith o weithredu polisi'r ysgol a'i weithdrefnau cysylltiedig;

   i. meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau o fewn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.

3. Dylid cynnwys ymrwymiad i gynnwys rhanddeiliaid allweddol.

   - Dyma'r rhanddeiliaid allweddol a ddylai gael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r polisi: yr undebau llafur, yr athrawon, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion.

## Y rolau a'r cyfrifoldebau

4. Mae'r polisi'n esbonio rolau a chyfrifoldebau'r cyflogwr / corff llywodraethu, y pennaeth, yr arweinwyr uwch a'r aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb penodol am reoli ymddygiad, yr athrawon, y staff cymorth, y disgyblion, y rhieni/gofalwyr, y gwirfoddolwyr ac ymwelwyr â'r ysgol.
5. Mae'r polisi'n nodi bod y **cyflogwr / corff llywodraethu** yn gyfrifol am:
   a. sefydlu'r polisi ar gyfer hybu ymddygiad da mewn ymgynghoriad â'r pennaeth, y staff, undebau llafur, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion;
   b. adolygu'r polisi'n rheolaidd;
   c. sicrhau bod y polisi'n cael ei gyfathrebu i'r disgyblion a'r rhieni/gofalwyr;
   d. sicrhau bod effaith y polisi ar gydraddoldeb wedi cael ei hasesu, a bod y camau priodol wedi'u cymryd i ymdrin â materion a allai gael effaith niweidiol;
   e. sicrhau bod effaith y polisi o ran lleihau tlodi wedi cael ei hasesu, a bod y camau priodol wedi'u cymryd i ymdrin â materion a allai gael effaith niweidiol;
   f. sicrhau bod effaith y polisi ar y llwyth gwaith wedi cael ei hasesu, a bod y camau priodol wedi'u cymryd i ymdrin â materion a allai gael effaith niweidiol;
   g. sicrhau bod disgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad y disgyblion wedi eu hesbonio'n glir;
   h. cefnogi'r staff sy'n wynebu ymddygiad herfeiddiol;
   i. helpu'r ysgol i gynnal safonau uchel o ran ymddygiad;
   j. sicrhau nad yw'r polisi'n gwahaniaethu, a'i fod yn hybu cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da rhwng y grwpiau gwarchodedig;
   k. sicrhau bod unrhyw bryderon sydd gan y staff a'r disgyblion yn derbyn clust ac yn cael eu datrys mewn ffordd briodol.
6. Mae'r polisi'n nodi'n glir y bydd y **pennaeth** yn:
   a. gyfrifol am reoli a gweithredu polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli ymddygiad o ddydd i ddydd;
   b. cefnogi aelodau o'r staff sy'n wynebu ymddygiad herfeiddiol;
   c. sicrhau bod yr ysgol yn gwneud asesiadau o'r effeithiau o ran cydraddoldeb, llwyth gwaith a lleihau tlodi, a bod canfyddiadau'r

asesiadau'n hysbysu penderfyniadau am y polisi ymddygiad a pholisïau, gweithdrefnau a strategaethau cysylltiedig;

d. sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau'n cael eu gweithredu mewn ffordd deg a chyson;

e. sicrhau bod unrhyw bryderon sydd gan y disgyblion yn derbyn clust ac yn cael eu datrys mewn ffordd briodol.

7. Mae'r polisi'n nodi'r **arweinwyr uwch** a'r **aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb penodol am reoli ymddygiad**.

8. Mae'r polisi'n nodi'n glir bod yr **athrawon, aelodau eraill o'r staff a gwirfoddolwyr** yn gyfrifol am:

   a. weithredu'r polisi a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt mewn ffordd gyson a theg;

   b. roi cefnogaeth ar y cyd i aelodau eraill o'r staff (ac i wirfoddolwyr, lle bo'n briodol) er mwyn sicrhau bod y polisi a'r gweithdrefnau'n cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a theg;

   c. roi cyngor i'r pennaeth ar effeithiolrwydd y polisi a'r gweithdrefnau;

   d. sicrhau nad yw'r polisi a'r gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n wahaniaethol, gan gynnwys ar sail tarddiad ethnig neu hunaniaeth genedlaethol, diwylliant, crefydd, hunaniaeth ryweddol, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol neu statws economaidd-gymdeithasol;

   e. sicrhau bod unrhyw bryderon sydd gan y disgyblion yn derbyn clust ac yn cael eu datrys mewn ffordd briodol.

9. Mae'r polisi'n nodi hyn yn glir mewn perthynas â'r **rhieni/gofalwyr**:

   a. disgwylir iddynt gymryd y cyfrifoldeb am eu plentyn o fewn ac oddi allan i'r ysgol;

   b. disgwylir iddynt weithio mewn partneriaeth â'r ysgol i helpu'r ysgol i gynnal safonau uchel o ran ymddygiad;

   c. byddent yn cael eu hannog i dynnu sylw'r ysgol at unrhyw broblemau sy'n codi o weithredu'r polisi ymddygiad.

10. Mae'r polisi'n nodi hyn yn glir mewn perthynas â'r **disgyblion**:

   a. sicrheir eu bod yn gwbl ymwybodol o bolisi, gweithdrefnau a disgwyliadau'r ysgol;

   b. disgwylir iddynt gymryd y cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain ar safle'r ysgol neu oddi arno;

   c. maent yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn rhoi adroddiad am unrhyw achosion o darfu ar wersi, trais ac unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu.

### Gweithdrefnau

11. Mae'r polisi'n esbonio hyn mewn perthynas â'r gweithdrefnau:
    a. byddent yn cael eu datblygu gan y pennaeth mewn ymgynghoriad â'r staff, yr undebau llafur a'r rhanddeiliaid allweddol eraill;
    b. byddent yn esbonio'n glir i'r disgyblion sut y gellir cyrraedd safonau ymddygiad derbyniol;
    c. mae ganddynt sail resymegol glir a fydd yn cael ei hesbonio i'r staff, y disgyblion a'u rhieni/gofalwyr;
    d. byddent yn helpu i weithredu'r polisi mewn ffordd gyson a theg;
    e. dylent helpu pob aelod o'r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol mewn perthynas â'r gymuned gyfan.

### Gwobrau

12. Mae'r polisi'n esbonio sut y bydd ymddygiad da'n cael ei hybu a'i annog.
13. Mae'r polisi'n esbonio y bydd y gwobrau'n cael eu diffinio'n glir yn y gweithdrefnau.

### Cosbau

14. Mae'r polisi'n esbonio y bydd ystod o gosbau'n cael eu diffinio yn y gweithdrefnau.
15. Mae'r polisi'n esbonio y bydd y gweithdrefnau'n nodi pryd y bydd cosbau penodol yn cael eu defnyddio a pha newidiadau mewn ymddygiad fydd eu hangen i osgoi cosbau pellach.
16. Mae'r polisi'n esbonio y bydd y gweithdrefnau'n gwahaniaethu'n glir rhwng gwahanol lefelau o gosbau a sut y defnyddir y cosbau hynny.

### Cydraddoldeb

17. Mae'r polisi'n nodi'n glir y bydd yr ysgol yn cymryd camau i sicrhau bod gwobrau a chosbau'n cael eu defnyddio mewn ffordd deg a chyfartal.
18. Mae'r polisi:
    a. yn cyfeirio at y defnydd a wneir o ddulliau monitro i benderfynu a yw grwpiau penodol o ddisgyblion yn fwy neu'n llai tebygol o dderbyn gwobrau neu gosbau;
    b. yn cyfeirio at addasiadau rhesymol a wneir gan yr ysgol i ddisgyblion sydd ag anabledd;

       - Gallai methu â gwneud addasiadau rhesymol achosi honiad o wahaniaethu anghyfreithlon. Bydd llys neu dribiwnlys yn gwneud penderfyniad ynglŷn â pha addasiadau fyddai'n rhesymol.

- Mae Rheoliad 4(1)(c) Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Anabledd) 2010 (SI 2010 Rhif 2128) yn nodi bod *'tuedd i gam-drin pobl eraill yn gorfforol…'* yn gyflwr sydd wedi'i eithrio o ddiffygion ar sail anabledd. Fodd bynnag, penderfynodd yr Uwch Dribiwnlys bod hyn yn anghydnaws ag Adran 3 Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r achos yn dangos mor bwysig yw hi bod ysgolion yn sicrhau eu bod yn ceisio rhagweld anghenion disgyblion ac yn gwneud addasiadau rhesymol i ateb yr anghenion hynny.

c. yn cyfeirio at y defnydd a wneir o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn canfod beth yw anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion ac i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau neu arferion penodol yr ysgol yn debygol o gael effaith bositif neu negyddol ar ymddygiad grwpiau penodol o ddisgyblion;

- Dylai'r ysgol wneud asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y disgyblion hynny sy'n rhannu un o'r nodweddion sydd wedi'u gwarchod o dan y ddeddfwriaeth am gydraddoldeb.[1] Dylai asesiadau o effaith y polisi ymddygiad ar gydraddoldeb hefyd gynnwys disgyblion sydd â mathau arbennig o anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion sydd â chyfrifoldebau gofalu, plant sy'n derbyn gofal a disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

d. yn esbonio sut y bydd yr ysgol yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac yn lliniaru effeithiau niweidiol mewn perthynas ag ymddygiad disgyblion a welwyd pan wnaed asesiadau o effeithiau.

**Hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chymorth**

19. Mae'r polisi'n cynnwys ymrwymiad y bydd y cyflogwr / corff llywodraethu'n sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn hyfforddiant, cyfleoedd datblygiad proffesiynol a chymorth priodol o safon uchel gyda phob agwedd o reoli ymddygiad i gefnogi gweithrediad y polisi ymddygiad.

**Y gydberthynas â pholisïau eraill yr ysgol**

20. Mae'r polisi ymddygiad yn esbonio'r cysylltiadau gyda pholisïau eraill, yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â chyfle cyfartal, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad, gwrth-fwlio, cwricwlwm, asesiadau, hybu cydlyniant cymunedol, lleihau tlodi, diogelu, iechyd a diogelwch, a lles gweithwyr.

**Cyfranogaeth asiantaethau allanol**

21. Mae'r polisi'n nodi ymrwymiad yr ysgol i weithio gydag asiantaethau allanol i hybu ymddygiad cadarnhaol, rheoli ymddygiad, neu i ateb anghenion disgyblion penodol mewn perthynas ag ymddygiad.

22. Mae'r polisi'n nodi sut y bydd yr ysgol yn defnyddio cymorth allanol, a'r camau a fydd yn cael eu cymryd i sicrhau ansawdd a phriodoldeb y cymorth a roddir.

---

[1] Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ac adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998 yng Ngogledd Iwerddon.

### Datblygu ac adolygu'r polisi

- Bydd y polisi ymddygiad ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn cael ei ddatblygu gan yr holl grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn yr ysgol ac mae ganddynt deimlad gwirioneddol o berchnogaeth ar y polisi.

23. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn esbonio:

 a. bod grwpiau rhanddeiliaid allweddol wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r polisi, ac mae'n nodi enwau'r rhanddeiliaid hynny;

- Mae'r rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys y cyflogwr / corff llywodraethu, y pennaeth, yr athrawon, aelodau eraill o'r staff, yr undebau llafur, y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr.

 b. y bydd y pennaeth yn monitro'r polisi ymddygiad yn systematig;

 c. y bydd y pennaeth yn gwneud adolygiadau rheolaidd o'r polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mewn ffordd deg a chyson;

- Dylai'r adolygiadau ddefnyddio data i fonitro cydraddoldeb, gan gynnwys data yn ymwneud â tharddiad ethnig neu hunaniaeth genedlaethol, diwylliant, crefydd, hunaniaeth ryweddol, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, cefndir economaidd-gymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol a statws 'derbyn gofal'.

 d. y bydd y cyflogwr / corff llywodraethu'n adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol ac yn effeithiol;

 e. y bydd y broses o fonitro ac adolygu'r polisi ymddygiad yn cael ei gweithredu mewn ymgynghoriad â'r staff, yr undebau llafur a'r rhanddeiliaid allweddol eraill;

 f. y bydd canlyniadau'r adolygiadau'n cael eu cyfathrebu i'r staff, yr undebau llafur, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion, ynghyd â chynigion i wneud unrhyw newidiadau i'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

### Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o gyngor ac arweiniad am faterion rheoli ymddygiad a meysydd perthynol eraill, ewch i: www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom.html.

siaradwch
â ni

029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

www.nasuwt.org.uk

18/06008 Cymru